**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: KW/2345/20

David Allen, Cadeirydd, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

alison.hopkins@hefcw.ac.uk

10 Awst 2020

Annwyl David

Yn fy natganiad polisi addysg uwch ar 4 Mai, cynigiais yr angen am gyfyngu ar y gyfradd dderbyn yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Gosodwyd fy nghynnig yng nghyd-destun derbyniadau addysg uwch fel mater ledled y Deyrnas Unedig a oedd yn gofyn am ddull cydgysylltiedig ar draws y pedair gwlad ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

Roeddwn yn falch o weld ymgynghoriad CCAUC ar y mater hwn. Bellach mae angen ailystyried y dull gweithredu yng Nghymru yn sgil y rheoliadau a gymeradwywyd yn ddiweddar gan Senedd y Deyrnas Unedig a fydd yn gweithredu polisi rheoli rhifau myfyrwyr Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid wyf yn credu mai'r dull hwn sydd orau i Gymru. Rwyf wedi dweud eisoes mai fy mhrif flaenoriaeth yw amddiffyn buddiannau myfyrwyr Cymru a sefydliadau addysg uwch Cymru. Felly, nid wyf yn cynnig ceisio gweithredu mesurau tebyg yng Nghymru.

Mae data diweddar gan UCAS yn awgrymu bod diddordeb mewn symud ymlaen i addysg uwch ymhlith ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru wedi tyfu ers mis Mawrth, ac mae'r gyfran uchaf erioed o bobl ifanc 18 oed o Gymru bellach yn gwneud cais i'r brifysgol. Fodd bynnag, disgwylir i'r patrwm hwnnw yn 2020 fod yn gyfnewidiol ac yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol, a gwyddom y bydd llawer o sefydliadau yn poeni am yr angen i lenwi lleoedd sydd, fel arfer, yn cael eu llenwi gan fyfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, nid wyf am weld dull rhy gystadleuol o recriwtio yn y sector addysg uwch yng Nghymru a allai beryglu sefydlogrwydd rhai o'n sefydliadau.

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob ymgeisydd israddedig llawnamser o Gymru sy'n meddu ar gymwysterau yn gallu dechrau addysg uwch yn y flwyddyn academaidd 2020/21. Rwyf am ddarparu cyfleoedd yng Nghymru i bobl ifanc symud ymlaen â'u haddysg ac osgoi dod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a darparu cyfleoedd hefyd ar lefel addysg uwch i weithwyr sydd wedi'u dadleoli, i gael sgiliau uwch neu sgiliau gwahanol newydd. Rwyf hefyd eisiau cynyddu capasiti sefydliadau Cymru i'r eithaf i recriwtio myfyrwyr newydd yn sgil y ffaith bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi cyfyngiadau newydd ar ymgeiswyr sy'n hanu o Loegr. Felly mae'n hanfodol sicrhau na fydd unrhyw reolau rhifau myfyrwyr yng Nghymru yn arwain at




Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ganlyniad anfwriadol o gyfyngu ar gyfleoedd myfyrwyr trwy greu lleoedd gwag neu ormod o leoedd dros ben yn ein prifysgolion.
Felly, hoffwn i CCAUC gymryd y camau y maent yn eu hystyried yn briodol i sefydlogi'r sector yng Nghymru, heb gael effaith andwyol ar gynnig cyfleoedd i ddysgu yng Nghymru.
Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar iawn, ac yn edmygu'r dull gweithredu ar y cyd a sefydlwyd gyda'r sector yma yng Nghymru, sy'n bwrw ati i fynd i'r afael â'r heriau niferus ac amrywiol yr ydym yn eu wynebu yn sgil y pandemig hwn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education